**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Meilyr Rowlands

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Estyn

21 Mawrth 2019

Annwyl Meilyr,

**Addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion**

Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn craffu ar y drefn o ran addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru mewn ysgolion.

Yn ystod haf 2018, cynhaliwyd pleidlais gyhoeddus yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd i ddewis o blith rhestr o bynciau posibl ar gyfer ein hymchwiliad nesaf. Cymerodd bron 2,500 o bobl ran yn y bleidlais a dewisodd 44 y cant ohonynt y pwnc hwn.

Rydym yn ymchwilio i sut y bydd cwricwlwm drafft Llywodraeth Cymru yn helpu i blant Cymru ddatblygu ymdeimlad o hunaniaeth drwy ddysgu am eu hanes, eu hiaith a'u harferion.

Ym mis Chwefror, cynhaliwyd digwyddiad i glywed gan ymarferwyr a phobl eraill sydd â diddordeb yn y mater hwn. Dywedodd nifer o bobl yn y digwyddiad mai prin yw'r dystiolaeth o faint o hanes Cymru a gaiff ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth. Er ein bod yn glir bod gofynion i addysgu agweddau ar hanes Cymru yn y cwricwlwm ac o fewn meysydd llafur arholiadau, roedd yn amlwg bod gweithwyr proffesiynol o'r farn bod y sefyllfa'n dra wahanol ar lawr gwlad. Mae hyn yn amlwg yn bryder mawr ac yn fater y teimlwn y mae'n rhaid ei ddatrys ar adeg pan fo'r cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu a'i weithredu.

Un o'r sylwadau a gafodd gryn gefnogaeth oedd awgrym y dylai Estyn gynnal adolygiad thematig o'r drefn o ran addysgu hanes Cymru. Mae ymchwiliad y Pwyllgor ond megis dechrau, ond pe bai'r Pwyllgor yn penderfynu argymell bod y Gweinidog Addysg yn ystyried gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o'r drefn o ran addysgu hanes Cymru, byddwn yn croesawu eich barn ar ddichonoldeb cynnal adolygiad o'r fath.

Byddwn hefyd yn ddiolchgar o gael gwybod a oes gennych unrhyw wybodaeth am y cynnwys a'r drefn o ran addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion y gallwn ei defnyddio i lywio ein hymchwiliad. Mae gennym

ddiddordeb mewn clywed gan Estyn am ffyrdd o wella'r gwaith o addysgu'r pwnc hwn. A allwch chi roi gwybod i mi pwy fyddai'r person gorau yn Estyn i gysylltu â hwy er mwyn trafod hyn ymhellach?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau hyn erbyn 24 Ebrill er mwyn llywio ein gwaith.

Yn gywir,



Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Bethan Sayed AM
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

17 Ebrill 2019

Annwyl Bethan

**Addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion**

Diolch am eich llythyr yn amlinellu gwaith y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wrth graffu ar addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion. Rwy'n falch fod y Pwyllgor wedi bod yn edrych ar y maes pwysig hwn. Mae'n faes y bu Estyn yn ei ystyried yn ddiweddar yn ein hadroddiad thematig ar 'Arfer dda yn y dyniaethau'. Rwyf wedi atodi crynodeb o'n sail dystiolaeth o'r adroddiad thematig ac o waith arolygu diweddar arall fel atodiad. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Mae arolygwyr yn rhoi ystyriaeth eang i'r agwedd hon mewn arolygiadau craidd o ysgolion, ac yn adrodd arni trwy eithriad. O dan Faes Arolygu 3, addysgu a phrofiadau dysgu, rydym yn ystyried: 'y ffyrdd y mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol yn llawn, gan gynnwys cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol yr ysgol'.

Byddwn yn croesawu'r cyfle i gynnal adolygiad thematig mwy cynhwysfawr o addysgu hanes a diwylliant Cymru trwy ein cylch gwaith blynyddol. Gwyddoch fod y Gweinidog Addysg wedi ysgrifennu ataf yn ddiweddar yn amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer adolygiadau thematig yn ein cylch gwaith blynyddol ar gyfer 2019-2020. Mae lle i gynnal un adolygiad ychwanegol bob blwyddyn. Efallai yr hoffech drafod gyda'r Gweinidog p'un a ellid cytuno ar y gwaith hwn fel eitem ychwanegol eleni. Fel arall, gellid ei ystyried fel rhan o gylch gwaith blynyddol y flwyddyn nesaf i Estyn.

Os hoffech drafod yr agwedd hon ymhellach, neu os oes unrhyw dystiolaeth arall y gallaf ei darparu i'r Pwyllgor, mae croeso i chi gysylltu â mi. Os hoffech drafod ein gwaith yn y maes penodol hwn ymhellach, ein harolygydd arweiniol ar gyfer y dyniaethau yw Michelle Gosney, a gellir cysylltu â hi trwy: Ymholiadau@estyn.llyw.cymru

Yours sincerely

Meilyr Rowlands

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros
Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

**Atodiad: Tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion**

Rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o dystiolaeth isod o’n gwaith arolygu craidd a’n gwaith thematig am addysgu hanes a diwylliant Cymru.

**Crynodeb**

- Mae llawer o athrawon yn defnyddio eu cyd-destun lleol a digwyddiadau hanesyddol Cymru yn effeithiol fel rhan o’u gwersi dyniaethau ac i ddarparu cyd-destun cyfoethog ar gyfer dysgu ym meysydd eraill y cwricwlwm. Mae’r cyfleoedd hyn yn cynorthwyo disgyblion i wella eu dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru.
- Mewn ychydig o ysgolion, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o’u hardal leol. Mae hyn naill ai o ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth neu ddefnyddio enghreifftiau llai perthnasol o werslyfrau.
- Yng nghyfnod allweddol 4, ni fanteisir yn llawn ar ddatblygu’r dimensiwn Cymreig. Mae athrawon yn canolbwyntio’n gyfan gwbl ar ofynion penodol yr arholiadau. O ganlyniad, nid yw athrawon bob amser yn cysylltu dysgu disgyblion â chyd-destun lleol, lle bo modd.

**Adroddiadau arolygiadau ysgolion uwchradd**

**Maes arolygu 1: Safonau**

- Mae adroddiadau’n cynnwys ystod o enghreifftiau lle mae disgyblion yn trafod, yn darllen ac yn ysgrifennu am hanes a diwylliant Cymru, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3.

Er enghraifft:

<u>Siarad a gwrando</u>

- Datblygu eu medrau llafaredd trwy drafod boddi Capel Celyn a Thryweryn i greu argaeau

<u>Darllen</u>

- Cyfleoedd i ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau ysgrifenedig i ddethol a threfnu gwybodaeth berthnasol, er enghraifft am gymeriad Llewelyn ein Llyw Olaf
- Mae disgyblion yn adalw gwybodaeth am Batagonia ar ôl gwylio pwt o fideo, ac yn trosglwyddo eu gwybodaeth i baragraffau syml caeedig
- Mewn gwersi daearyddiaeth, mae disgyblion yn darllen amrywiaeth o destunau am wahanol dirffurfiau i ddatblygu syniadau am sut cafodd ‘Pont Werdd Cymru’ yn Sir Benfro ei ffurfio.
- Mae disgyblion yn ymateb yn fedrus i gynnwys ac arddull testunau llenyddol, er enghraifft wrth gymharu cerddi sy’n dathlu llwyddiant tîm pêl-droed Cymru ym mhencampwriaethau Euro 2016.

<u>Ysgrifennu</u>

- Mewn gwersi hanes, mae disgyblion yn ysgrifennu dyddiadur pwrpasol am fywyd a gwaith glõwr ar droad yr ugeinfed ganrif.
- Mae disgyblion hŷn yn trafod effaith dyfeisiau llenyddol, er enghraifft wrth anodi barddoniaeth Owen Sheers i nodi geiriau sy’n ysgogi delweddau.

**Darpariaeth**

**Crynodeb o ddetholiadau o adroddiadau arolygiadau**

Mae llawer o ysgolion yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru, fel yr Eisteddfod flynyddol a chyrsiau preswyl yng Nglan-llyn, Llangrannog neu Gaerdydd.

Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd addas i wella eu dealltwriaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn cystadlaethau gyda'r Urdd, mentrau'r Fenter Iaith ac ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb lleol fel Amgueddfa Lofaol Cymru Big Pit.

Caiff disgyblion gyfleoedd priodol hefyd i astudio themâu lleol a threftadaeth ddiwylliannol yn eu pynciau academaidd.  Er enghraifft, maent yn dysgu am arwyr Cymru a therfysgoedd Beca, ac effaith yr Ail Ryfel Byd ar ardaloedd Cymru.

Mewn ychydig o ysgolion, nid yw'r agwedd hon ar waith yr ysgol wedi'i datblygu'n ddigonol.

**Adroddiadau arolygiadau ysgolion cynradd**

**Maes arolygu 1: Safonau**

Mae adroddiadau'n cynnwys ystod o enghreifftiau lle mae disgyblion yn datblygu eu medrau allweddol wrth iddynt ddysgu am hanes a diwylliant Cymru, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Er enghraifft:

Siarad a gwrando
- Mae disgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd ac yn archwilio gwahanol sefyllfaoedd trwy chwarae rôl wrth greu sgript drama i bortreadu bywyd faciwî yn ystod yr Ail Ryfel Byd
- Mae disgyblion yn gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau trwy ddefnyddio technegau i gofio'r prif bwyntiau gan wneud nodiadau a chrynhoi, er enghraifft wrth wrando ar ymwelwyr yn ail-ddweud eu profiadau o fywyd yn y pyllau glo.

Darllen
- Wrth ymchwilio i thema benodol, fel stori Betsi Cadwaladr, mae disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau darllen, fel brasddarllen y testun i ddod o hyd i eiriau allweddol, ymadroddion, yr hanfod, a'r prif syniadau neu themâu.
- Yn eu gwaith am yr Ail Ryfel Byd, mae disgyblion yn nodi nodweddion testunau, fel y cyflwyniad i'r testun, y dilyniant, y darluniau, a graddau'r ffurfioldeb, er enghraifft o adroddiadau papur newydd y cyfnod.
- Wrth ymchwilio i'r Rhufeiniaid yng Nghymru, mae disgyblion yn defnyddio gwybodaeth o ffynonellau dibynadwy, ar sgrin ac ar bapur, gan ddewis a lawrlwytho yn ôl yr angen.  Yn aml, bydd disgyblion mwy abl yn cymharu safbwynt gwahanol awduron ar yr un testun, yn coladu ac yn gwneud cysylltiadau rhwng gwybodaeth a syniadau o wahanol ffynonellau, ac yn gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn.

Ysgrifennu
- Yn eu gwaith thematig ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn ysgrifennu am hanes Cymru a'i diwylliant trwy *genres* amrywiol, er enghraifft trwy ail-ddweud stori Dewi Sant yn eu geiriau eu hunain neu drwy greu disgrifiadau a phortreadau manwl o ryfelwr Celtaidd. Mae llawer ohonynt yn cyflwyno eu gwaith mewn ffurfiau gwahanol, fel adroddiad papur newydd ar fomio Abertawe yn ystod yr Ail Ryfel Byd, neu bamffled am fanteision ymweld â chastell lleol ac amwynderau eraill i dwristiaid.

- Yn eu gwersi, mae disgyblion yn ysgrifennu dyddiadur ffuglennol am fywyd a gwaith plentyn yn ystod oes Fictoria yng Nghymru. Maent yn defnyddio geirfa sy'n benodol i'r pwnc yn annibynnol, ac yn cysylltu ffeithiau allweddol o'u dysgu blaenorol.
- Mae llawer ohonynt yn creu cyflwyniadau gan ddefnyddio TGCh i atgyfnerthu eu dysgu am ddigwyddiadau hanesyddol, er enghraifft creu cyflwyniad ffeithiol am fywyd Harri'r VIII neu ffeithlen am gymeriadau hanesyddol, ac eiconau o'u hardal leol, fel O.M. Edwards.

**Darpariaeth**

**Crynodeb o ddetholiadau o adroddiadau arolygiadau**

Mae llawer o ysgolion yn cynllunio themâu diddorol a difyr lle mae hanes a diwylliant Cymru yn aml yn ymddangos fel elfen o'r dysgu. Er enghraifft, wrth astudio'r Ail Ryfel Byd, mae athrawon yn cynllunio i addysgu disgyblion ynglŷn â'r modd yr effeithiodd y rhyfel ar Gymru. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth disgyblion am y rhyfel, gan gynnwys bod yn faciwî, bywyd bob dydd ac effeithiau bomio mewn ardaloedd o Gymru.

Mae llawer o ysgolion yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy'r thema am y Tuduriaid yng Nghymru. Mae athrawon yn datblygu gwybodaeth disgyblion am sut dechreuodd llinach y Tuduriaid, cronoleg brenhinoedd/breninesau arwyddocaol, a sut newidiodd Cymru a Lloegr yn ystod cyfnod llywodraethu'r Tuduriaid.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn creu themâu neu destunau dysgu sy'n archwilio'r hanes a'r diwylliant lleol yn dda. Mae'r profiadau hyn yn aml yn gysylltiedig â'r diwydiannau lleol sy'n amlwg yn yr ardal, fel y diwydiant llechi yng Ngogledd Cymru a'r diwydiant glo a dur yn y de. Yn yr enghreifftiau hyn, mae athrawon yn cynllunio i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am sut a pham y dechreuodd y diwydiant cloddio, effaith y diwydiant ar fywyd bob dydd, a gwaddol a dyfodol y diwydiannau hynny yng Nghymru.

Mae llawer o ysgolion hefyd yn datblygu eu themâu cwricwlwm i ymgorffori nodweddion allweddol yr ardal leol, er enghraifft ei hadeiladau eiconig fel cestyll neu adeiladau o gyfnodau hanesyddol penodol. Mae bron pob un o'r ysgolion hyn yn annog gwerthfawrogiad disgyblion trwy ymweld â'r henebion hyn i ddyfnhau eu dealltwriaeth.

Mae llawer o ysgolion hefyd yn datblygu dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion am bobl ysbrydoledig a'r modd y maent yn dylanwadu ar ddiwylliant modern.

Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd addas i wella eu dealltwriaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn cystadlaethau gyda'r Urdd, mentrau'r Fenter Iaith ac ymweliadau â lleoedd lleol o ddiddordeb fel Amgueddfa Lofaol Cymru Big Pit. Mae profiadau pellach yn cynnwys cymryd rhan yn yr Eisteddfod flynyddol, a chyrsiau preswyl yng Nglan-llyn, Llangrannog neu Gaerdydd.

**Detholiad o ganfyddiadau o 'Arfer dda yn y dyniaethau'**

Mae datblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth disgyblion o'r dimensiwn Cymreig a lle Cymru yn y byd yn nodwedd gref yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw.

Yn yr ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw, mae athrawon yn sicrhau bod cysylltiadau uniongyrchol yn cael eu gwneud i ddisgyblion â'u hardal leol, lle bo'n briodol o fewn testunau'r dyniaethau, er enghraifft cynhyrchu perfformiad am y diwydiant llechi lleol, ymgymryd â rolau trigolion Llandaf ym 1605 neu ymweld â safleoedd hanesyddol lleol.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd lle gwelir arfer dda, mae pynciau'r dyniaethau'n gwneud cysylltiadau priodol â hanes neu ddaearyddiaeth Cymru. Mewn hanes, gallai hyn gynnwys astudio'r ardal leol, dysgu

am ddigwyddiadau cenedlaethol arwyddocaol fel trychineb Aberfan neu faterion lleol fel milwyr y Rhyfel Byd Cyntaf o Fwcle. Mewn daearyddiaeth, caiff disgyblion eu hannog i archwilio materion lleol, er enghraifft llifogydd yn Nhowyn a'r Rhyl.

Mewn rhai ysgolion, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digonol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol. Mae hyn naill ai o ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd y gall yr ardal leol eu cynnig, neu am fod athrawon yn defnyddio enghreifftiau a welir mewn gwerslyfrau nad ydynt yn aml yn berthnasol i ddisgyblion, yn hytrach na datblygu eu henghreifftiau eu hunain gan ddefnyddio'r cyd-destun lleol.

Yng nghyfnod allweddol 4, ni fanteisir yn llawn ar ddatblygu'r dimensiwn Cymreig. Mae athrawon yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ofynion penodol yr arholiadau. O ganlyniad, nid yw athrawon bob amser yn cysylltu dysgu'r disgyblion â chyd-destun lleol, lle bo modd.